Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Llandygai**
**Llandygai**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 4HU**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Llandygai

Lleolir Ysgol Llandygai ym mhentref Llandygai, ger Bangor, yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae 128 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae gan yr ysgol bum dosbarth oed cymysg ac un dosbarth meithrin rhan amser. Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2016 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2012.

Dros dreigl tair blynedd, mae tua 18% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yr un peth â'r ganran genedlaethol. Mae tua 29% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 30% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn uwch na'r ganran genedlaethol o 21%.

Nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd pan fydd yr ysgol yn un ag iddi gymeriad crefyddol. Yn lle hynny, mae gofyniad cyfreithiol ar y corff llywodraethol i drefnu i addysg grefyddol ac addoli ar y cyd gael eu harolygu ar wahân.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau cyfathrebu Cymraeg cadarn. Maent yn dysgu'n gynhyrchiol ac yn gwneud cynnydd da ar lafar, yn eu darllen a'u hysgrifennu, o ystyried eu mannau cychwyn. Mae medrau Saesneg llawer ohonynt, wrth drafod, darllen ac ysgrifennu, yn aeddfed ac ystyrlon.

Mae llawer o ddisgyblion yn caffael cysyniadau mathemateg cadarn a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llwyddiannus. Yn ogystal, maent yn deall bod bwyta ac yfed yn iach yn cyfrannu'n helaeth at eu lles.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn asesu gwaith y disgyblion yn fanwl ac yn gofalu'n ddiwyd a chydwybodol amdanynt. Maent yn cynnig arweiniad a chymorth pwrpasol iddynt. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwerthfawrogi eu perthnasoedd â'r staff.

Mae'r pennaeth yn cynnal gweithdrefnau rheoli trwyadl yn rheolaidd er mwyn targedu gwelliannau yn y ddarpariaeth. Mae'n cydweithio'n agos â'r llywodraethwyr i hyrwyddo deilliannau buddiol i'r disgyblion trwy brofiadau dysgu diddorol. Yn ogystal, maent yn defnyddio'r gyllideb yn ddoeth i gynnal darpariaeth effeithiol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Codi safonau llafar Cymraeg y disgyblion

A2 Sicrhau bod disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm

A3 Cynllunio gweithgareddau heriol er mwyn i ddisgyblion ddatrys problemau'n annibynnol, yn enwedig y disgyblion mwyaf galluog

A4 Sicrhau bod gweithdrefnau rheoli'r ysgol yn hylaw a chynaliadwy

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Ychydig o ddisgyblion sy'n cychwyn yr ysgol â medrau cyfathrebu Cymraeg sy'n cyfateb i'r safon a ddisgwylir am eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg cadarn ac yn dysgu'n gynhyrchiol. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n llwyddiannus yn erbyn eu targedau personol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau llafar. Maent yn eglur ar lafar yn y Gymraeg ac yn esbonio eu gwaith yn bwyllog. Er enghraifft, yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn disgrifio cynnwys llythyr Santes Dwynwen i'w thad yn fanwl. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn ymateb yn syfrdanol i ddireidi'r pys drwg, ar ôl iddynt ludo llysiau ar fyrddau â thâp. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn ddigon parod i siarad Cymraeg yn gyson yn eu gwersi ac ar y buarth, sy'n amharu ar rugldер eu llafaredd. Mae medrau llafar Saesneg llawer ohonynt yng nghyfnod allweddol 2 yn aeddfed, er enghraifft wrth iddynt esbonio effaith gwrthiant aer ar barasiwt a sut i greu ffanffer ar gyfer eisteddfod Dydd Gŵyl Dewi.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen pwrpasol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn darllen ystod eang o destunau yn eglur. Maent yn deall cynnwys eu llyfrau'n dda wrth ddarllen ac yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn effeithlon, trwy fanteisio ar strategaethau ffonig defnyddiol. Maent yn wybodus ynglŷn â nodweddion cymeriadau cyfarwydd fel y dyn bach sinsir, ac yn cynnig esboniadau synhwyrol am gyfrwyster a bwriadau rheibus y cadno. Mae llawer yng nghyfnod allweddol 2 yn ynganu'n glir wrth ddarllen, yn enwedig yn y Saesneg. Maent yn mwynhau llyfrau ffuglen a ffeithiol, ac yn ymchwilio'n ystyrlon ar y we, gan gynnwys olrhain hanes Oes y Tywysogion a disgrifio gweithredoedd y Fam Teresa. O ganlyniad, maent yn defnyddio eu medrau darllen uwch i ddarganfod gwybodaeth o wahanol ffynonellau yn fwriadus.

Mae llawer, ar draws yr ysgol, yn ysgrifennu'n bwrpasol at wahanol ddibenion mewn ystod o gyd-destunau defnyddiol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu darnau diddorol a chywir yn y Gymraeg. Enghraifft dda yw cymharu cartrefi, traethau, bwyd a thirlun Cymru â Jamaica. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu'n ystyrlon yn y ddwy iaith i ystod eang o bwrpasau. Er enghraifft, maent yn creu taflenni ffeithiol lliwgar ar y planedau ac ar wyddonwyr enwog fel Syr Isaac Newton. Yn ogystal, maent yn gwerthuso lluniau o dirlun Cymru, gan artist lleol, yn frwdfrydig ac aeddfed.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall cysyniadau mathemategol yn dda. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau i ymestyn eu gwybodaeth yn effeithiol yn ystod gwersi. O ganlyniad, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn mesur taldra planhigion a chymharu'r canlyniadau yn hyderus. Yn ogystal, maent yn dylunio cebab ffrwythau yn ddeallus, trwy ddilyn patrymau penodol, a defnyddio tablau o ddata ar hoff ffrwythau'r dosbarth i gwblhau pictogram diddorol.

Mae llawer yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio data yn gynyddol gywir a'i gyflwyno mewn amryw ffurf i gyflawni tasgau mathemategol yn llwyddiannus. Er

enghraifft, maent yn amcangyfrif graddau onglau ac yn creu siapiau cyfansawdd â pherimedrau penodol. Yn ogystal, maent yn hyderus wrth gymharu a threfnu ffracsiynau a darganfod arwynebedd trionglau. Fodd bynnag, lleiafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol sy'n dewis y dulliau mathemategol addas i gwblhau tasgau newydd yn annibynnol, heb arweiniad oedolyn. Lleiafrif o ddisgyblion sy'n cymhwyso eu medrau rhifedd yn fwriadus i ddatrys problemau ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn dda. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod o gymwysiadau i wella eu medrau iaith, rhif a'u medrau echddygol manwl, trwy ddefnyddio teganau electronig. Yn ogystal, maent yn dechrau dysgu sut i gadw'n ddiogel ar-lein trwy gyfarwyddiadau synhwyrol, hawdd eu deall, gan oedolion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod o feddalwedd ac offer TGCh yn effeithiol i ymestyn eu dealltwriaeth ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn defnyddio gliniaduron yn bwrpasol i gywain gwybodaeth am gasglu sbwriel ar y traeth ac yn defnyddio sgrîn werdd i greu hysbyseb ar gynaliadwyedd. Yn ogystal, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o fanteision TGCh i gefnogi eu dysgu a phwysigrwydd eu diogelwch ar-lein.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, o fewn y naws gartrefol a theuluol sydd yn bodoli ynddi. Maent yn mwynhau gweithgareddau'r ysgol ac mae llawer yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr adeilad. Mae bron pob disgybl yn teimlo bod perthnasoedd agos rhyngddynt a'r staff ac maent yn gwybod beth i'w wneud os oes rhywbeth yn eu poeni. Mae 'blwch bwrw bol' yr ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fynegi eu pryderon yn gyfrinachol. Mae hyn yn atgyfnerthu eu sicrwydd bod oedolion yn ymateb i'w gofidion.

Mae gan lawer o ddisgyblion, ar draws yr ysgol agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Ar y cyfan, maent yn gweithio'n bwrpasol, er nid yw ychydig o'r disgyblion yn barod i gychwyn ar eu gwaith yn ddigon prydlon ar ddechrau sesiynau dysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i brofiadau newydd, yn enwedig profiadau newydd symbylus, fel anturiaethau taten hudolus. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth briodol o beth sydd angen ei wneud i wella eu gwaith. Maent yn dechrau arwain eu dysgu eu hunain trwy ddewis heriau sy'n ymwneud â'r themâu tymhorol. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu'n foddhaol i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Mae'r siop ffrwythau ddyddiol, sydd newydd ei chyflwyno gan y 'pwyllgor ieuanc iach', yn cefnogi'r disgyblion i wneud dewisiadau synhwyrol ynglŷn â'u diet. Mae bron pob disgybl yn cadw'n heini trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff rheolaidd. Yn ogystal, maent yn defnyddio eu medrau corfforol yn llwyddiannus mewn gweithgareddau allgyrsiol fel pêl-droed, rygbi a phêl-rwyd. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cynnal lefelau da o ffitrwydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod sut i gadw'n ddiogel ar lein ac mae 'derwyddon y cyfrifiaduron' a sesiynau gan yr heddlu, yn cyfoethogi eu dealltwriaeth yn fwriadus. Yn ogystal, mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn bod camddefnyddio sylweddau ac ysmygu yn niweidio'u cyrff.

Mae llais y disgybl, trwy waith pwyllgorau'r ysgol, yn datblygu'n briodol. Mae'r ystod eang o bwyllgorau fel y 'criw ysbrydol', y 'dreigiau doeth' a'r 'gofalwyr gwyrdd' yn galluogi'r disgyblion i wneud penderfyniadau pwrpasol am fywyd a gwaith yr ysgol. Enghraifft effeithiol o hyn yw menter y 'criw ysbrydol', sydd wedi creu ardal o lonyddwch a myfyrdod ym mherllan yr ysgol.

Mae dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion o werthoedd a chydraddoldeb yn datblygu'n dda. Mae'r 'llysgenhadon gwych' yn arwain y maes hawliau plant yn effeithiol ar draws yr ysgol. Enghraifft dda o'u gwaith yw'r cyfleoedd i ddisgyblion drafod materion fel gwrth-fwlio ymysg ei gilydd. Mae gwybodaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion am ddinasyddiaeth fyd-eang ac am ddiwylliannau eraill yn datblygu'n fwriadus o fewn y dosbarthiadau. Er enghraifft, mae'r gweithgareddau masnach deg ac astudiaethau am amryw o wledydd fel Patagonia a Botswana, yn datblygu dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o'r byd o'u cwmpas yn effeithiol.

Mae bron pob disgybl yn rhan o gynllunio gweithgareddau i godi arian tuag at elusennau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, maent yn llenwi bocsys esgidiau â nwyddau defnyddiol i blant mewn angen ar draws Ewrop. Mae hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth y disgyblion yn llwyddiannus am bwysigrwydd eu cyfraniadau i greu cymdeithas ofalgar.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. Cyfoethogir eu profiadau yn effeithiol drwy'r defnydd rheolaidd a wneir o ymwelwyr ac ymweliadau. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys ymweliadau i gastell Penrhyn, cyfleoedd i weithio gydag arbenigwyr i greu rhaglen radio ac ysgrifennu cerddi o dan ofal bardd lleol.

Mae cynlluniau'r cwricwlwm yn seiliedig ar themâu diddorol ac mae'r disgyblion yn cyfrannu syniadau am gynnwys y rhaglenni dysgu yn briodol. Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu gwreiddio'n gadarn a gwneir defnydd priodol o'r ardaloedd awyr agored i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn plannu bylbiau ar gyfer y gwanwyn ac yn chwilio am drychfilod o dan y gwrychoedd o gwmpas yr ysgol. Mae egwyddorion y cwricwlwm newydd i Gymru ar waith yng nghyfnod allweddol 2, gyda phwyslais da ar yr angen i adeiladu ar fedrau, profiadau a gwybodaeth y disgyblion ar eu taith drwy'r ysgol.

Mae cynlluniau'r athrawon ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a TGCh y disgyblion yn fanwl a phwrpasol. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn y meysydd hyn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau mathemateg y disgyblion yn gadarn. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cynnig digon o gyfleoedd i'r disgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn eu hannog i wneud eu gorau o fewn awyrgylch gynhaliol a chefnogol. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r gorarwain gan athrawon a chymorthyddion yn llesteirio gallu'r disgyblion, yn enwedig y mwyaf galluog, i ddatblygu eu medrau datrys problemau yn annibynnol.

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn llwyddo i ennyn diddordeb y disgyblion yn dda trwy gynnig amrywiaeth diddorol o weithgareddau. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen,

maent yn defnyddio cerddoriaeth glasurol, ‘The Flight of The Bumble Bee’, i ysgogi’r disgyblion i greu darnau celf lliwgar. Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r disgyblion yn dysgu sut i greu papur fel rhan o’u gwaith thema, ‘Arbed, Ailgylchu ac Ailddefnyddio’. Ar draws yr ysgol, mae’r athrawon yn rhannu amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant y gweithgareddau yn effeithiol gyda’r disgyblion. Fodd bynnag, ar adegau, mae gormod o bwyslais ar gofnodi’r amcanion a’r meini prawf yn y llyfrau gwaith. O ganlyniad, nid yw’r disgyblion yn dechrau ar eu dysgu yn ddigon prydlon.

Mae’r athrawon a’r cymorthyddion dysgu yn cydweithio’n effeithiol ac yn cefnogi’r dysgu yn llwyddiannus trwy gynnig ymyrraeth bwrpasol. Mae’r cymorthyddion yn gaffaeliad i’r ysgol ac yn cefnogi unigolion a grwpiau o ddysgwyr yn effeithiol o fewn y dosbarthiadau. Mae nodweddion gorau’r addysgu, sy’n amlwg mewn dros hanner y dosbarthiadau, yn seiliedig ar ddisgwyliadau uchel yr athrawon. Yn y dosbarthiadau hyn, maent yn holi’n fedrus er mwyn datblygu ymhellach ymatebion a dealltwriaeth y disgyblion ac mae cyflymder da i’r gwersi. Ar adegau, mewn ychydig iawn o’r gwersi, nid yw’r athrawon yn rheoli’r dosbarth yn ddigon cadarn. O ganlyniad, mae ymddygiad ychydig iawn o’r disgyblion yn amharu ar rediad llyfn y gwersi.

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o ystod o weithdrefnau asesu ar gyfer dysgu. Maent yn rhoi cyfleoedd da i’r disgyblion asesu eu gwaith eu hunain, sydd yn cryfhau eu dealltwriaeth o sut i wneud gwelliannau. Mae adborth yr athrawon yn dathlu llwyddiannau’r disgyblion ac yn dangos iddynt sut i wella’u gwaith yn adeiladol. Mae’r ysgol yn cydweithio’n dda ag ysgolion y dalgylch i safoni a chymedroli gwaith y disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu’n fuddiol at sicrhau dilysrwydd a chywirdeb asesiadau’r athrawon.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned gynhwysol a chartrefol. Rhoddir pwyslais ar sicrhau gofal a chymorth i bob unigolyn. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn teimlo’n ddiogel ac yn ymfalchïo yn eu hysgol. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gweithdrefnau’r ysgol yn meithrin dulliau cadarnhaol o reoli ymddygiad ac mae rhan fwyaf yr staff yn eu gweithredu’n llwyddiannus.

Mae gweithdrefnau olrhain cynnydd disgyblion yn fanwl iawn. Gwneir defnydd da o’r wybodaeth, sy’n deillio ohonynt, i adnabod anghenion unigolion a grwpiau o ddysgwyr. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn bwrpasol ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd. Mae gan pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg unigol effeithiol. Maent yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a thargedau priodol i symud disgyblion ymlaen yn eu dysgu yn dda. Caiff y cynlluniau eu hadolygu’n rheolaidd gyda’r disgyblion, yr athrawon a’r rhieni. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n llwyddiannus ag asiantaethau allanol fel gwasanaethau cymdeithasol, y swyddog lles a’r heddlu. Mae’r partneriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar les y disgyblion. Mae perthynas gynhyrchiol yn bodoli rhwng y rhieni a’r ysgol gyda dulliau cyfathrebu effeithiol, sydd yn galluogi’r rhieni i gefnogi eu plant yn llwyddiannus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach yn effeithiol. Mae'r staff yn annog y disgyblion i gadw'n heini trwy wersi ymarfer corff ac amrywiaeth dda o weithgareddau allgyrsiol. Mae ymweliadau gan nyrs yr ysgol a'r heddlu yn galluogi'r disgyblion i ddeall effeithiau niweidiol o gamddefnyddio sylweddau a pheryglon defnyddio'r we yn anghyfrifol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau doeth er mwyn cadw'n iach a diogel.

Mae'r ethos cynhwysol sy'n bodoli yn sicrhau bod y disgyblion yn cael cyfleoedd da i fod yn aelodau o'r amrywiol gynghorau. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae eu cyfraniad at waith yr ysgol yn datblygu'n dda. Mae ethos yr ysgol, a'r gwasanaethau cyd-addoli, yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r staff yn annog y disgyblion i ystyried safbwyntiau eraill yn synhwyrol, i gydnabod a pharchu amrywiaeth a phwysigrwydd gwerthoedd fel goddefgarwch.

Caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am ddiwylliant Cymru. Maent yn cystadlu mewn eisteddfodau, yn dysgu chwedlau fel Cantre'r Gwaelod ac yn gwrando ar gerddoriaeth draddodiadol a chyfoes. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion ddysgu am ddiwylliannau gwledydd eraill trwy weithgareddau'r cwricwlwm a thrwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol. Enghraifft lwyddiannus o hyn yw'r ymweliad diweddar gan fyfyrwyr o Siapan a fu'n dysgu'r disgyblion am eu traddodiadau cerddorol, eu bwydydd a'u hiaith. Mae'r ysgol yn annog disgyblion i ddefnyddio'u dychymyg ac ymwneud â'r celfyddydau creadigol yn effeithiol. Enghraifft arbennig o hyn yw'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a chwmni theatr lleol, lle bu'r disgyblion yn gweithio gydag artistiaid, actorion, dawnswyr a cherddorion i greu rhaglen ddogfen o ansawdd uchel a phroffesiynol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth y pennaeth wedi ei seilio ar weithdrefnau rheoli cywrain. Mae'n annog awyrgylch hapus a theuluol, sy'n seiliedig ar gymorth a gofal cadarn. Mae ei athroniaeth yn canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth a sicrhau lles y disgyblion. Mae'n rhoi arweiniad cadarn i'r staff i fynd i'r afael â materion pwysig, fel hybu'r Gymraeg a chydweithio'n synhwyrol ag ysgolion cyfagos. O ganlyniad, mae'r athrawon yn cefnogi ei weledigaeth er mwyn sicrhau gwelliannau, er enghraifft wrth ddiweddaru eu cynllunio i fodloni gofynion y cwricwlwm newydd yng Nghymru.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso cyfredol a thrwyadl ar waith. Mae'r pennaeth a'r athrawon yn gweithredu trefniadau gwella ansawdd effeithlon. Maent yn canolbwyntio'n dda ar wella'r ddarpariaeth i dargedu deilliannau'r disgyblion, fel cynnal cyfleoedd i ddatblygu llais disgyblion ar draws yr ysgol. O ganlyniad, maent yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella, trwy ddilyn amserlen fonitro flynyddol. Fodd bynnag, er bod y gweithdrefnau hunanwerthuso yn adeiladu darlun dilys o'r ysgol, nid ydynt yn hylaw a chynaliadwy. Mae agweddau beichus yn perthyn i'r arferion fel creu toreth o waith papur diangen ynglŷn â thracio cynnydd disgyblion.

Mae targedau'r cynllun datblygu yn canolbwyntio'n effeithiol ar gynnal a gwella safonau disgyblion, er mai araf yw'r cynnydd yn erbyn ambell flaenoriaeth, fel gwella rhifedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, oherwydd amgylchiadau staffio heriol, mae gallu'r pennaeth i ddosrannu cyfrifoldebau i ddiwallu blaenoriaethau'r cynllun datblygu wedi ei gyfyngu ar hyn o bryd.

Mae gan aelodau’r corff llywodraethol wybodaeth gadarn am berfformiad yr ysgol. Maent yn derbyn mewnbwn ymarferol gan y pennaeth am weithdrefnau hunanwerthuso a’r cynllunio strategol. Maent yn cydweithio’n effeithiol â’r pennaeth trwy graffu ar lyfrau a chynnal teithiau o gwmpas yr ysgol. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o gryfderau’r ysgol ac unrhyw anghysondebau sy’n bodoli yn y ddarpariaeth. Mae hyn yn eu galluogi i ddwyn y pennaeth i gyfrif ac i gefnogi cyfeiriad strategol clir i ddatblygu’r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol. Maent yn sicrhau bod gan yr ysgol adnoddau priodol, gan gynnwys y staff cynorthwyol, sy’n rhan annatod o'r tîm, ac sy’n cyfrannu'n llwyddiannus at godi safonau disgyblion, a sicrhau eu lles a’u gofal.

Mae’r arweinwyr yn mynd i’r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn effeithiol. Er enghraifft, mae’r ffocws cryf ar weithredu’r Siarter Iaith yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddefnydd y disgyblion o’r Gymraeg.

Mae systemau effeithiol i ddatblygu’r athrawon yn cysylltu’n uniongyrchol â’r gweithdrefnau rheoli perfformiad. Maent yn cael effaith gadarnhaol ar eu medrau addysgu. Er enghraifft, maent yn gwella’u harbenigedd yn dda trwy hyfforddiant ynglŷn â sut i wella medrau ysgrifennu estynedig ac ymddygiad y disgyblion. O ganlyniad, maent yn rhannu eu harbenigedd gyda’u cydweithwyr yn gyson ac yn sicrhau bod yr hyfforddiant yn effeithio’n gadarnhaol ar ddeilliannau’r disgyblion.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o’r staff a’r adeilad. Mae tir yr ysgol, y gymuned leol a’r ardal ehangach yn cael eu defnyddio’n effeithiol, sy’n cynnwys Castell Penrhyn a chwarel lechi gyfagos. Mae’r profiadau hyn yn cyfoethogi dysgu’r disgyblion yn effeithiol ac yn datblygu eu medrau ymhellach. Fodd bynnag, nid ydynt yn trefnu’r amserlen ddyddiol yn effeithiol. Mae’r toriadau aml am gyfnodau egwyl yn y cyfnod sylfaen a’r prinder oriau yng nghyfnod allweddol 2 yn llesteirio rhediad llyfn y dysgu.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn sicrhau bod y gyllideb a’r grantiau ychwanegol i ddatblygu’r ddarpariaeth a gwella safonau yn cael eu defnyddio’n dda. Mae’r gwariant yn cysylltu’n fwriadus â blaenoriaethau’r cynllun datblygu ac mae’r monitro trylwyr o’r cyllid yn sicrhau effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau disgyblion. Enghraifft lwyddiannus o hyn yw cyllido profiadau dysgu oddi ar safle’r ysgol, sy’n cyfoethogi dysgu’r disgyblion, fel ymweliadau i eisteddfod ryngwladol Llangollen ac amgueddfeydd Caerdydd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/05/2019